

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

IS-DDEDDFWRIAETH

2006 Rhif 16

TAI, CYMRU

Y COD RHEOLIADOL AR GYFER CYMDEITHASAU TAI
SYDD WEDI’U COFRESTRU YNG NGHYMRU

Wedi’i wneud

21 Mawrth 2006

Yn dod i rym

22 Mawrth 2006

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw’r nodyn hwn yn rhan o’r Gorchymyn)

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, trwy arfer y pwerau o dan adran 36 o Ddeddf Tai 1996 fel y’i diwygiwyd gan adran 218 o Ddeddf Tai 2004, yn cyhoeddi canllawiau statudol i Gymdeithasau Tai sydd wedi’u cofrestru yng Nghymru.

Mae’r canllawiau, a elwir “Cod Rheoliadol ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi’u Cofrestru yng Nghymru” yn nodi’r disgwyliadau allweddol sydd i’w defnyddio wrth asesu rheoli a llywodraethu Cymdeithasau Tai.

Llofnodwyd:

**Y Gweinidog dros Gyfiawnder
Cymdeithasol ac Adfywio**

Dyddiad: 21 March 2006

COD RHEOLIADOL

AR GYFER CYMDEITHASAU TAI SYDD WEDI’U COFRESTRU
YNG NGHYMURU

Mawrth 2006



COD RHEOLIADOL AR GYFER CYMDEITHASAU TAI SYDD WEDI’U COFRESTRU YNG NGHYMRU – CANLLAW O DAN ADRAN 36 O DDEDDF TAI 1996

Cyflwyniad

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru wedi penderfynu disodli’r Gofynion Rheoliadol gyda’r Cod Rheoliadol ar gyfer Cymdeithasau Tai sydd wedi Cofrestru yng Nghymru (y Cod). Cafodd y Cod hwn ei gyhoeddi gan y Cynulliad fel canllaw o dan adran 36 o Ddeddf Tai 1996. Trwy’r ddogfen, rydym wedi defnyddio’r term mwy cyfarwydd ‘cymdeithasau tai’ i gyfeirio at landlordiaid cymdeithasol cofrestredig sydd wedi’u cofrestru â’r Cynulliad.

Mae’r Cod yn amlinellu:

- **Y Disgwyliadau Allweddol**
sy’n rhoi amlinelliad o sut y mae’r Cynulliad yn disgwyl i gymdeithasau tai weithredu yn yr ardaloedd a nodir.
- **Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano**
sy’n amlinellu’r math o dystiolaeth y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn chwilio amdani i ddangos bod cymdeithasau yn dilyn y Cod.
- **Sut y byddwn yn asesu a yw’r cymdeithasau yn bodloni’r disgwyliadau allweddol**
sy’n amlinellu sut y bydd y Cynulliad yn asesu a yw cymdeithasau yn dilyn y Cod (trwy adroddiadau arolygu, gwaith y cydlynwyr rheoleiddio, ayb.)

Bwriad y Cod hwn yw caniatáu i gymdeithasau arloesi ac ymateb i amgylchiadau lleol. Mae’n canolbwyntio cymaint â phosibl ar ganlyniadau yn hytrach na phrosesau er mwyn caniatáu i gymdeithasau gyflawni’r amcanion yn y ffordd sydd fwyaf addas ar eu cyfer hwy a’u cwsmeriaid. Mae’n bosibl y bydd gan rai cymdeithasau ffyrdd eraill o ddilyn y Cod. Mewn achosion o’r fath, y gymdeithas ei hun fydd yn gyfrifol am ddangos ei bod yn cwrdd â’r disgwyliadau allweddol mewn ffordd briodol. Er y dylai cymdeithasau bach yn benodol ddilyn pob agwedd o’r Cod, bydd angen iddynt ystyried sut y gallant brofi eu bod yn bodloni disgwyliadau allweddol y Cod a chanllawiau’r Cynulliad sy’n berthnasol i gymdeithasau bach.

Bydd canllawiau mwy manwl yn cael eu cyhoeddi gan y Cynulliad (a chânt eu cyhoeddi yn y dyfodol) ar nifer o feysydd fel a ddangosir yng ngholofn y Canllaw o dan ‘yr hyn y byddwn yn chwilio amdano’. Bydd rhestr o ganllawiau perthnasol eraill yn cael ei chyhoeddi’n rheolaidd a’i diweddarau’n gyson i sicrhau bod cymdeithasau’n deall yn union pa ddogfennau y cyfeirir atynt.

Y Fframwaith Cyfreithiol

Mae Adran 75 o Ddeddf Cymdeithasau Tai 1985 yn rhoi nifer o swyddogaethau cyffredinol i’r Cynulliad, gan gynnwys swyddogaethau i:

- hwyluso landlordiaid cymdeithasol cofrestredig i gyflawni eu swyddogaethau mewn dull priodol;
- cadw cofrestr o landlordiaid cymdeithasol; a
- goruchwyllo a rheoli personau o'r fath.

O dan Adran 36 o Ddeddf Tai 1996, gall y Cynulliad gyhoeddi canllawiau yn gysylltiedig â:

- rheoli llety mewn tai gan gymdeithasau tai;
- llywodraethu cymdeithasau;
- rheoli cymdeithasau yn effeithiol; a
- sefydlu a chynnal hyfywedd ariannol cymdeithasau.

Wrth ystyried a oes angen cymryd camau i sicrhau bod cymdeithas yn cael ei rheoli'n briodol, neu i ganfod a fu camymddwyn neu gamreoli, bydd yn bosibl i'r Cynulliad ystyried i ba raddau y dilynwyd y canllaw a gyhoeddwyd o dan Adran 36.

Mae gan y Cynulliad hefyd ystod eang o bwerau o dan y ddeddfwriaeth dai, sy'n cynnwys y pŵer i wneud penderfyniadau ar safonau perfformiad mewn cysylltiad â'r ddarpariaeth dai o dan Adran 34 o Ddeddf Tai 1996 a phwerau penodol o dan Atodlen 1 y Ddeddf honno.

Dylai'r cymdeithasau fod yn ymwybodol y bydd y Cynulliad yn ystyried i ba raddau y dilynwyd yr holl ganllawiau perthnasol wrth asesu a oes angen cymryd camau rheoleiddiol.

Diffiniadau

Yn y Cod hwn mae:

"Cynulliad" yn golygu Cynulliad Cenedlaethol Cymru;

"cwsmer" yn cynnwys tenantiaid, preswylwyr, y bobl hynny sy'n gwneud cais am dai a phobl a fydd o bosibl yn gwneud cais i gymdeithasau tai;

"cymdeithasau tai" a "cymdeithasau" yn golygu landlordiaid cymdeithasol cofrestredig;

"preswilydd" yn golygu pob mathau o feddiannwyr cyfreithiol mewn llety a ddarperir gan gymdeithas, e.e. tenantiaid, preswylwyr elusendy, lesddeiliaid, rhan-berchnogwyr, a dalwyr trwydded;

"tenant" yn golygu preswilydd sy'n talu rhent neu sydd â thenantiaeth ddiogel, sicr, neu denantiaeth fyrddaliol sicr neu drwydded i feddiannu llety.

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
1	Dylai Cymdeithasau ganolbwyntio'n bennaf ar ddarparu tai addas a fforddiadwy gyda gwasanaethau cysylltiedig ac amwynderau ar gyfer pobl sy'n methu prynu neu rhentu ar y farchnad agored.		<i>Mae'r golofn hon yn amlinellu'r prif ffynonellau gwybodaeth a gaiff eu defnyddio i asesu a yw cymdeithasau yn dilyn y disgwyliadau allweddol</i>
1.1	Darparu tai		
1.1.1	Dylai cymdeithasau weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol ac asiantaethau eraill i nodi a diwallu anghenion yr ardal o ran tai.	A yw'r gymdeithas yn cyfrannu'n effeithiol yn y meysydd canlynol: • datblygu strategaethau tai lleol; • mecanweithiau cynllunio strategol Cefnogi Pobl a • strategaethau ac adolygiadau digartrefedd lleol? A oes gan y gymdeithas Gytundebau Tai Cymunedol effeithiol gyda'r awdurdodau perthnasol? A yw'r gymdeithas yn cyfranogi at ddatblygu cymunedol neu fentrau adnewyddu ac adfywio cymdogaethau?	Adroddiadau arolygu Rheoleiddio • Dadansoddiad strategol blynyddol o'r cynllun busnes pum mlynedd Hunan asesiad
1.1.2	Rhaid i gymdeithasau ddarparu cartrefi sydd wedi'u cynllunio'n dda, sydd o ansawdd uchel, ac sy'n hawdd eu cynnal.	A yw'r gymdeithas yn sicrhau bod pob adeilad newydd, adeiladau adferedig, addasiadau a datblygiadau sy'n newid defnydd yn bodloni Gofynion Ansawdd Datblygu y Cynulliad? A yw'r gymdeithas yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cynulliad ar Safon Ansawdd Tai Cymru mewn perthynas â'r stoc presennol?	Adroddiadau arolygu Rheoleiddio • Asesu bodloni'r GAD • Asesu gwerth am arian cynlluniau datblygu

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
		A yw'r cartrefi a ddarperir gan y gymdeithas yn gynaliadwy, gyda defnydd darbodus o adnoddau naturiol a threfniadau effeithiol i ddiogelu'r amgylchedd? Wrth ddarparu cartrefi newydd, a yw egwyddorion datblygu cynaliadwy yn cael eu hymestyn hefyd i gynnwys y gymuned gyfan a'r amgylchedd o'i chwmpas? A yw'r datblygiadau newydd a ddarperir yn defnyddio egwyddorion 'Adeiladu Arbenigrwydd' a'r canllawiau caffael cysylltiedig?	- Gwybodaeth am ardystiadau datblygu - Gwybodaeth am sut y rheolir y rhaglen ddatblygu Hunan asesiad
1.2	Rhenti a thaliadau gwasanaeth		
1.2.1	Dylai'r cymdeithasau gydymffurfio â chanllawiau rhent meincnod y Cynulliad.	A yw'r gymdeithas yn cydymffurfio â chanllawiau rhent meincnod y Cynulliad?	Rheoleiddio Ffurflenni rhent meincnod Hunan asesiad
1.2.2	Dylai cymdeithasau gadw ôl-ddyledion rhent mor isel â phosibl	A yw'r gymdeithas yn cadw ôl-ddyledion rhent mor isel â phosibl trwy ddefnydd effeithiol o fecanweithiau atal ac adfer dyledion?	Adroddiadau adolygu Rheoleiddio: - Dangosyddion perfformiad - Arolwg o'r nifer sydd wedi'u troi allan - Cwynion i'r Cynulliad/

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
			Ombwdsmon Datganiadau Ariannol wedi'u Harchwilio Hunan asesiad
1.3	Gosod tai		
1.3.1	Dylai cymdeithasau sicrhau bod pobl sydd ag anghenion tai yn ymwybodol o dai y gymdeithas a'u bod ar gael iddynt	A yw'r gymdeithas yn rhoi gwybodaeth am y canlynol i bobl sydd ag angen tai, yn enwedig grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol: - ei pholisïau dyrannu a gosod tai - gwybodaeth am ei stoc; a - threfniadau ar gyfer derbyn atgyfeiriadau gan sefydliadau priodol? A roddir cymorth effeithiol i'r rhai hynny sydd am: - gyfnewid; - trosglwyddo; - symud o, neu i, dai â chymorth; neu - prynu i berchentyaeth cost isel? A yw'r gymdeithas yn ymateb i gynlluniau symudedd a chyfnewid cenedlaethol a lleol? A yw'r gymdeithas yn cadw'r cyfyngiadau ar fynediad at ei thai cyn lleied â phosibl trwy; - gadw rhestrau aros ar agor; a - gweithredu polisïau atal neu wahardd yn unol â	Adroddiadau arolygu Rheoleiddio: Cwynion i'r Cynulliad/ Ombwdsmon Hunan asesiad

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
		chanllawiau'r Cynulliad?	
1.3.2	Dylai cymdeithasau weithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol perthnasol ar ddyrannu tai.	A yw'r gymdeithas yn cynorthwyo awdurdodau lleol i gwrdd â'u rhwymedigaethau i gartrefu pobl ddigartref yn unol â chanllawiau'r Cynulliad? A yw'r gymdeithas yn cynorthwyo awdurdodau lleol lle y bo'n bosibl i gwrdd â'u rhwymedigaethau i gartrefu: • pobl agored i niwed; a • pobl y gellid eu hystyried yn risg uchel (gan gynnwys troseddwr atodlen 1)? A yw'r gymdeithas yn cynnig enwebiadau i awdurdodau lleol yn unol â chanllawiau'r Cynulliad?	Adroddiadau arolygu Hunan asesiad
1.3.3	Dylai cymdeithasau gael polisi dewis teg a cheisio cadw cydbwysedd rhwng y canlynol wrth ddyrannu tai: • anghenion a dewisiadau ymgeiswyr a'r rhai sydd am drosglwyddo; • yr angen i hybu cynhwysiant cymdeithasol; • yr angen i greu cymunedau sefydlog; ac • yr angen i wneud y defnydd gorau o adnodd sy'n cael ei ariannu'n gyhoeddus.	A yw'r gymdeithas yn pennu blaenoriaethau anghenion o ran tai yn unol â'i pholisi cyhoeddedig? A yw'r polisi hwnnw'n cael ei ddilyn yn gyson ac yn dryloyw wrth osod, prydlesu a gwerthu ei holl stoc dai? A yw'r gymdeithas yn rhoi sylw i ddewisiadau ymgeiswyr, ac yn cynnig cymaint o ddewisiadau â phosibl? A yw systemau gosod y gymdeithas yn ystyried amodau'r farchnad dai leol? O ran ceisiadau am berchentyaeth cartrefi cost isel, a yw'r gymdeithas yn ystyried gallu'r ymgeisydd i dalu'r costau?	Adroddiadau arolygu Rheoleiddio: • Dadansoddiad strategol blynyddol o'r cynllun busnes pum mlynedd • Cwynion i'r Cynulliad/Ombwdsmon Hunan asesiad

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
		A yw'r gymdeithas yn gweithredu polisiau gosod lleol sy'n diogelu buddiannau preswylwyr presennol a'r gymuned yn ehangach ac yn atal neu'n gwrthdroi dirywiad cymdeithasol? A yw'r gymdeithas wedi sicrhau nad yw ei pholisiau gosod lleol yn golygu cyfyngu'n ddiangen ar fynediad at dai, trwy sicrhau: • eu bod yn amlwg wedi'u seilio ar dystiolaeth; • eu bod wedi ymgynghori â'r sawl a effeithir ganddynt; • bod ganddynt amcanion clir; a'u • bod yn effeithiol wrth fodloni'r amcanion hynny?	
1.3.4	Dylai cymdeithasau osod eu heiddo'n gyflym ac effeithlon.	A oes gan y gymdeithas bolisiau a strategaethau effeithiol ar gyfer rheoli tai gwag a galw isel? A oes gan y gymdeithas strategaeth farchnata effeithiol?	Adroddiadau arolygu Rheoleiddio: • Dadansoddiad strategol blynyddol o'r cynllun busnes pum mlynedd • Dangosyddion perfformiad Hunan asesiad
1.4	Rheoli tai		
1.4.1	Dylai cymdeithasau sicrhau bod preswylwyr yn cael cynnig y math mwyaf sicr o feddiannaeth.	A yw'r gymdeithas yn gwyro oddi wrth y math mwyaf sicr posibl o feddiannaeth yn unol â chanllawiau'r Cynulliad yn unig? A yw'r gymdeithas yn dosbarthu Gwarant y Cynulliad i Breswylwyr Cymdeithasau Tai i'w holl breswylwyr?	Adroddiadau arolygu Rheoleiddio • Cwynion i'r Cynulliad/ Ombwdsmon

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
		A yw'r gymdeithas yn darparu cymorth i breswylwyr i ddeall eu holl hawliau meddiannaeth, a sut i'w gweithredu? A yw'r gymdeithas yn cychwyn camau ildio meddiant am dorri cytundebau tenantiaeth fel cam olaf yn unig a phan fo pob llwybr arall posibl wedi methu? A yw'r gymdeithas yn defnyddio meddiant gorfodol mewn amgylchiadau unigol eithriadol yn unig?	Hunan asesiad
1.4.2	Dylai cymdeithasau helpu i ddiogelu ansawdd bywyd preswylwyr a chymdogion.	A yw'r gymdeithas yn gwneud popeth yn ei gallu i fynd i'r afael mewn ffordd effeithiol ag: • ymddygiad gwrthgymdeithasol • anghydfodau rhwng cymdogion; ac • aflonyddu; yn unol â chanllawiau'r Cynulliad?	Adroddiadau arolygu Rheoleiddio • Cwynion i'r Cynulliad/ Ombwdsmon Hunan asesiad
1.5	Cynnal tai		
1.5.1	Dylai cymdeithasau sicrhau bod y cartrefi a osodir ganddynt mewn cyflwr da.	A yw'r gymdeithas yn mabwysiadu safonau gofynnol ar gyfer llety sy'n cael ei ailosod?	Adroddiadau arolygu Rheoleiddio • Cwynion i'r Cynulliad/ Ombwdsmon Hunan asesiad
1.5.2	Dylai cymdeithasau gadw tai mewn cyflwr da trwy sicrhau bod gwaith cynnal a chadw a gwaith trwsio y gwneir cais amdano sydd	A yw'r gymdeithas yn categorïddio ac yn cwblhau pob gwaith trwsio y gwneir cais amdano yn unol â chanllawiau y Cynulliad? A yw'r gymdeithas yn cynnal archwiliadau diogelwch rheolaidd	Adroddiadau arolygu Rheoleiddio: • Dangosyddion

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
	wedi'i gynllunio neu'n gylchol yn cael ei wneud yn effeithiol.	yn unol â rhwymedigaethau statudol? A yw staff a chontractwyr yn gweithio i sicrhau safonau cynnal a chadw sydd wedi'u nodi'n glir ac sy'n effeithiol? A yw'r gymdeithas yn sicrhau bod safonau gwaith cynnal a chadw yn cael eu bodloni yn ymarferol, trwy arolygu'r gwaith cyn dechrau arno, ei oruchwylio, a'i arolygu ar ôl ei gwblhau? A yw staff cynnal a chadw a chontractwyr yn dilyn cod ymddygiad sy'n ymwneud â safonau ymddygiad a darparu gwasanaeth? A yw'r gymdeithas yn cynnal cylch rheolaidd o arolygon o gyflwr stoc yn unol â chanllawiau y Cynulliad? A yw'r gymdeithas yn dilyn rhaglen gynhwysfawr o waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio, er mwyn sicrhau bod ei stoc yn cydymffurfio â Safon Ansawdd Tai Cymru a chanllawiau cysylltiedig? A yw amseroedd ymateb a thargedau yn ystyried anghenion preswylwyr, yn enwedig y rhai sy'n fwyaf agored i niwed? A yw preswylwyr yn cael gwybod, mewn ymateb i gais i wneud gwaith trwsio, pa waith trwsio a gaiff ei wneud, a phryd?	perfformiad • Cwynion i'r Cynulliad/ Ombwdsmon Hunan asesiad
1.6	Tai ar gyfer pobl ag anghenion o ran cymorth		Bydd arolwg o'r gymdeithas tai yn edrych ar ansawdd y

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
			gwasanaethau tai. Bydd arolwg Cefnogi Pobl yn edrych ar ansawdd y gwasanaethau cymorth.
1.6.1	Dylai cymdeithasau ofalu bod tai ar gael i bobl sydd ag anghenion o ran cymorth, a sicrhau eu bod yn medru manteisio ar wasanaethau priodol.	A yw'r gymdeithas yn derbyn hunan-gyfeiriadau priodol gan ymgeiswyr gydag anghenion o ran cymorth, a chyfeiriadau neu enwebiadau gan awdurdodau statudol, darparwyr cymorth a gweithwyr proffesiynol? A yw'r gymdeithas yn dilyn gweithdrefnau dyrannu priodol ar gyfer ymgeiswyr newydd a phreswylwyr presennol sydd ag anghenion cymorth? Os nad oes gan y gymdeithas lety addas, a yw'n cynnig cymorth i ymgeiswyr gydag anghenion o ran cymorth ddod o hyd i lety arall? A oes gan y gymdeithas drefniadau i ddarparu gwasanaethau cymorth yn fewnol neu drwy gytundeb â darparwyr cymorth eraill i sicrhau y gall tenantiaid sy'n agored i niwed gadw eu tenantiaethau? A oes gan y gymdeithas drefniadau symud ymlaen priodol gydag asiantaethau lleol?	Adroddiadau arolygu Rheoleiddio Cwynion i'r Cynulliad/Ombwdsmon Hunan-asesu
1.6.2	Dylai cymdeithasau gymhwyso'u holl rwymedigaethau sylfaenol yn	A yw'r gymdeithas yn cyflawni'i dyletswydd gofal trwy sicrhau bod y tai a ddarperir i bobl ag anghenion o ran cymorth yn	Adroddiadau arolygu

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
	deg i gwsmeriaid sydd angen cymorth, gan deilwra'r gwasanaeth a ddarperir i ddiwallu eu hanghenion penodol.	ddiogel, ac yn briodol ar gyfer yr anghenion hynny? A yw'r gymdeithas yn caniatáu hawliau meddiannaeth i breswylwyr gydag anghenion o ran cymorth sy'n adlewyrchiad priodol o'u hamgylchiadau? A yw'r gymdeithas yn darparu gwybodaeth a chymorth priodol i breswylwyr gydag anghenion i'w galluogi i ddeall ac arfer eu hawliau a'u hymrwymadau o ran meddiannaeth? A yw preswylwyr gydag anghenion cymorth yn cael y cymorth sy'n briodol i'w hamgylchiadau pan gymerir camau i feddiannu eu tai? A yw'r gwasanaeth cynnal a chadw yn ystyried gofynion arbennig pobl agored i niwed yn benodol y rheini ag anghenion cymorth? A yw'r gymdeithas yn darparu gwybodaeth a chynghor ar wasanaethau mewn fformatau a thrwy fecanweithiau sy'n briodol i amgylchiadau amrywiol pobl ag anghenion cymorth? A yw'r gymdeithas yn gofyn am farn ac yn gwrando ar bryderon preswylwyr gydag anghenion cymorth, ac yn ymateb yn briodol? A yw strategaeth cyfranogi'r tenantiaid yn rhoi sylw digonol i breswylwyr gydag anghenion cymorth?	Rheoleiddio • Dangosyddion perfformiad • Cwynion i'r Cynulliad/Ombwdsmon Hunan asesiad

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
		A yw cymdeithasau'n sicrhau bod gwasanaethau landlordiaid eu darparwyr cymorth yn cydymffurfio â rhwymedigaethau eu contractau?	
2	Dylai cymdeithasau redeg busnesau atebol, sy'n gynaliadwy'n ariannol, ac yn effeithlon.		
2.1	Bod yn agored ac atebol		Er na fydd y materion hyn yn cael eu harolygu'n uniongyrchol, gall adroddiadau arolygu gynnwys tystiolaeth berthnasol.
2.1.1	Dylai cymdeithasau gynnal eu holl fusnes mewn ffordd agored ac atebol.	A oes gan y gymdeithas berthynas agored ac atebol â'i chwsmeriaid? A yw'r gymdeithas yn adrodd i randdeiliaid ar weithgareddau a pherfformiad o leiaf unwaith y flwyddyn? A yw'r gymdeithas yn ystyried ceisiadau ar gyfer aelodau gyda chyfranddaliadau yn ôl teilyngdod ac yn unol â pholisi aelodaeth gyda chyfranddaliadau sy'n agored a chyhoeddus? A yw'r gymdeithas yn cynnal cyfarfodydd blynyddol a chyffredinol arbennig neu gyfarfodydd cyhoeddus sydd wedi derbyn cyhoeddusrwydd eang ar adegau ac mewn canolfannau priodol?	Rheoleiddio: • Archwilio, pan fydd angen, bolisiau aelodaeth y Bwrdd • Cwynion i'r Cynulliad/ Ombwdsmon Hunan asesiad
2.1.2	Dylai cymdeithasau weithio mewn	A yw'r gymdeithas yn agored gyda'r Cynulliad am unrhyw fater	Rheoleiddio:

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
	ffordd agored ac adeiladol â'r Cynulliad.	gwirioneddol neu fater posibl sy'n groes i'r Cod hwn? A yw'r Gymdeithas yn hysbysu'r Cynulliad am unrhyw gynnig a allai gael effaith arwyddocaol / berthnasol ar ei gweithgareddau a'i pherfformiad?	• Adolygiad o'r cyfrifon rheoli • Adolygiad blynyddol o'r Datganiadau Ariannol archwiliedig, llythyr y rheolwyr ac ymateb y gymdeithas • Gwybodaeth am ardystiadau datblygu • Ffurflenni rhenti meincnod • Dadansoddiad strategol blynyddol o'r cynllun busnes pum mlynedd • Ffurflenni LCC 1/2/3/4 • Dangosyddion perfformiad Hunan asesiad
2.2	Y berthynas â phreswylwyr		
2.2.1	Dylai cymdeithasau ddarparu gwybodaeth a chynghor hawdd eu deall, eglur a chywir i breswylwyr.	A yw strategaethau cyfranogiad tenantiaid a/neu gompactau cyfranogiad tenantiaid y gymdeithas yn cynnwys cytundeb eglur ar y wybodaeth a ddarperir ganddynt i breswylwyr? A yw'r gymdeithas yn darparu gwybodaeth glir a chywir am ei gwasanaethau i'w phreswylwyr ar ddechrau ac yn ystod cyfnod eu meddiannaeth? A yw'r gymdeithas yn darparu'r wybodaeth hon mewn ieithoedd	Adroddiadau arolygu Rheoleiddio: • Cwynion i'r Cynulliad/ Ombwdsmon Hunan asesiad

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
		a fformatau y gall ei phreswylwyr eu deall a'u defnyddio? A yw'r gymdeithas yn darparu cyngor priodol i'w phreswylwyr, ac yn hwyluso defnydd, lle y bo'n briodol, o gyngor arbenigol (er enghraifft, cyngor ariannol/dyledion, cyngor ar wasanaethau cymorth, gwasanaethau cyngor tai lleol)? A yw'r gymdeithas yn gweithredu mewn ffordd briodol o ran: • mynediad at wybodaeth; • cyfrinachedd; a • diogelu data?	
2.2.2	Dylai cymdeithasau fod yn atebol i breswylwyr am ansawdd y gwasanaethau a ddarperir.	A yw'r gymdeithas yn darparu gwybodaeth eglur i breswylwyr ar ei pherfformiad, a sut y mae ei pherfformiad yn cymharu â landlordiaid cymdeithasol eraill, yn unol â chanllawiau'r Cynulliad ar Werth Gorau? A yw strategaethau cyfranogiad tenantiaid a/neu gompactau cyfranogiad tenantiaid y gymdeithas yn cynnwys trefniadau pendant ar gyfer gwneud y gymdeithas yn atebol i breswylwyr am ansawdd ei gwasanaethau? A oes gan y gymdeithas safonau a pholisïau gwasanaeth eglur, a ddatblygwyd mewn ymgynghoriad â'i phreswylwyr? A yw'r gymdeithas yn darparu gwybodaeth i breswylwyr ar: • ei safonau gwasanaeth; • a'i pherfformiad yn erbyn yr holl safonau hynny?	Adroddiadau arolygu Rheoleiddio: • Cwynion i'r Cynulliad/Ombwdsmon Hunan asesiad

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
		A yw'r gymdeithas yn cynnig iawndal priodol am wasanaethau a gollir neu berfformiad gwael? A yw'r gymdeithas yn dilyn polisi cwyno sy'n arwain trwy ei Bwrdd at y Cynulliad? A yw'r polisi cwyno hwnnw wedi'i gynllunio i sicrhau nad yw problemau a ganfyddir yn digwydd eto? A yw'r gymdeithas yn ymateb yn gyflym ac mewn ffordd resymol i gwynion preswylwyr?	
2.2.3	Dylai cymdeithasau ofyn am farn preswylwyr, gwrando arnynt, a rhoi ystyriaeth iddynt.	A yw strategaethau cyfranogiad tenantiaid a/neu gompactau cyfranogiad tenantiaid y gymdeithas yn cynnwys trefniadau pendant i glywed barn preswylwyr? A oes tystiolaeth bendant fod y gymdeithas wedi cymryd camau i ymateb i'w barn? A yw'r gymdeithas yn monitro ac yn gwerthuso bodlonrwydd y preswylwyr yn rheolaidd ac yn effeithiol? A oes tystiolaeth bendant fod y gymdeithas wedi cymryd camau i ymateb i'r broses fonitro honno? A yw'r gymdeithas yn paratoi adborth i breswylwyr i ddangos eu bod wedi cymryd sylw o'u barn?	Adroddiadau arolygu Rheoleiddio Cwynion i'r Cynulliad/ Ombwdsmon Hunan asesiad
2.2.4	Dylai cymdeithasau annog	A yw strategaethau cyfranogiad tenantiaid a/neu gompactau	Adroddiadau arolygu

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
	preswylwyr i gyfrannu	cyfranogiad tenantiaid y gymdeithas yn cynnwys trefniadau pendant i alluogi preswylwyr i gyfrannu? A yw'r gymdeithas yn cynnig anogaeth, gan gynnwys cymorth ariannol a hyfforddiant priodol, i rymuso preswylwyr a'u galluogi i gyfranogi? Os oes gan y gymdeithas fudiadau tenantiaid a phreswylwyr ffurfiol: • a ydynt yn gynrychioliadol; • a ydynt yn atebol;ac • a ydynt yn dilyn meini prawf cydnabod eglur? A yw'r gymdeithas yn annog tenantiaid i gyfranogi ar ei Bwrdd?	Rheoleiddio • Ffurflenni LCC 1/2/3/4 • Archwilio, pan fydd angen, bolisïau aelodaeth y Bwrdd • Cwynion i'r Cynulliad/Ombwdsmon Hunan asesiad
2.3	Cyfle cyfartal		
2.3.1	Dylai cymdeithasau fynd ati i hybu: • parch tuag at amrywiaeth • cyfle cyfartal • dileu gwahaniaethu yn eu holl weithgareddau; a • hyrwyddo cysylltiadau da rhwng pobl o wahanol grwpiau hiliol.	A yw'r gymdeithas yn sicrhau ei bod yn cydymffurfio â phob deddfwriaeth sy'n gysylltiedig â materion sy'n ymwneud â chydaddoldeb, gan gynnwys: • gydraddoldeb hiliol; • gwahaniaethu ar sail rhyw; • gwahaniaethu ar sail anabledd; a'r • iaith Gymraeg? A oes gan y gymdeithas drefniadau eglur i hybu cydraddoldeb o ran mynediad ac i ddileu gwahaniaethu yn ei holl weithgareddau? A yw'r trefniadau hyn yn cynnwys gwahaniaethu annheg ar sail	Adroddiadau arolygu Rheoleiddio: • Ffurflenni LCC 1/2/3/4 • Archwilio polisïau aelodaeth y Bwrdd yn ôl y gofyn • Cwynion i'r Cynulliad/Ombwdsmon Hunan asesiad

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
		pob maen prawf na ellir ei gyfiawnhau, gan gynnwys: • hil; • rhyw; • anabledd; • anghenion cefnogaeth; • oed; • iaith; • crefydd; • statws priodasol; a • tueddfryd rhywiol? A oes gan y gymdeithas strategaeth cyfle cyfartal gyda chynllun gweithredu yn cynnwys targedau pendant? A yw'r gymdeithas yn monitro canlyniadau yn erbyn y targedau hyn, ac yn cymryd camau priodol? A yw aelodau'r Bwrdd, staff a'r prif breswylwyr yn dangos ymwybyddiaeth o faterion cyfle cyfartal? A yw'r gymdeithas yn gweithio gyda phobl sydd â gwybodaeth arbenigol am grwpiau lleiafrifol neu'n eu cynrychioli? A yw'r gymdeithas yn dilyn strategaeth dai a chynllun cydraddoldeb hiliol Pobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig, yn unol â Chynllun Gweithredu Cymru ar Dai i Bobl Dduon a Lleiafrifoedd Ethnig?	

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
2.3.2	Dylai cymdeithasau drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal.	A yw'r gymdeithas, yn ei holl weithgareddau, yn gwneud defnydd priodol o'r Gymraeg o safbwynt anghenion ei chwsmeriaid a'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu? A yw'r gymdeithas wedi mabwysiadu Cynllun Iaith Gymraeg, sydd wedi'i gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, pan fo wedi'i hysbysu o'r gofyniad hwn gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg?	Adroddiadau arolygu Rheoleiddio Cwynion i'r Cynulliad/ Ombwdsmon Hunan asesiad
2.4	Rheolaeth ariannol a risg		Er na fydd y materion hyn yn cael eu harolygu'n uniongyrchol, gall adroddiadau arolygu gynnwys tystiolaeth berthnasol
2.4.1	Mae'n rhaid i gymdeithasau fod yn hyfyw yn ariannol a meddu ar adnoddau digonol i fodloni eu hymrwymadau busnes ac ariannol presennol ac yn y dyfodol.	A yw cynllun busnes pum mlynedd y gymdeithas yn nodi'r amcanion strategol a'r blaenoriaethau ac yn dangos fod ganddi'r adnoddau digonol i gyflawni ei hymrwymadau? A yw rhagolygon ariannol y gymdeithas (rhagolygon ariannol 30 mlynedd ar gyfer cymdeithasau sydd ag asedau o ran eiddo) yn: - dangos hyfywedd hirdymor; - adlewyrchu gwybodaeth gadarn a chywir am gyflwr y stoc; - cyflawni eu strategaeth rheoli asedau yn ddigonol; - dangos y bodlonir cyfamodau cytundebau benthyciadau; - cynnwys strategaethau tymor byr a thymor hir ar gyfer ariannu rhwymedigaethau'r dyfodol; ac yn - destun y dadansoddiadau sensitifrwydd priodol?	Rheoleiddio: - Adolygu cyfrifon rheoli - Adolygiad blynyddol o'r Datganiadau Ariannol archwiliedig, llythyr y rheolwyr ac ymateb y gymdeithas - Asesiad blynyddol o gydymffuriad gyda chyfamodau benthycwyr - Dadansoddiad blynyddol o'r cynllun busnes pum mlynedd - Dadansoddiad blynyddol

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
		A yw'r gymdeithas yn adolygu'r cynllun busnes a'r rhagolygon ariannol yn flynyddol?	o'r rhagolygon ariannol 30 mlynedd Hunan asesiad
2.4.2	Mae'n rhaid i gymdeithasau nodi a rheoli risgiau busnes ac ariannol.	A yw'r gymdeithas yn gweithredu strategaeth rheoli risg effeithiol sy'n: • nodi ac yn meintoli pob risg sylweddol; • rhoi manylion am gynlluniau i reoli risg; ac yn • nodi'r lefelau priodol o adnoddau i liniaru risg? A oes gan y gymdeithas systemau a gweithdrefnau rheoli mewnol effeithiol sy'n lleihau'r risg o golledion trwy dwyll, llygredd, camgymeriadau neu gamreoli? A yw'r gymdeithas yn cynnal hunan asesiad blynyddol: • yn erbyn y Cod Rheoliadol; • o gynnydd a wnaethpwyd yn erbyn argymhellion yr archwiliad mewnol; • o anghenion archwiliadau mewnol yn y dyfodol; • o gynnydd a wnaethpwyd yn erbyn argymhellion yr archwiliad allanol a materion a godwyd yn Llythyr y Rheolwyr; • o gynnydd a wnaethpwyd yn erbyn camau y cytunwyd arnynt gyda'r Cynulliad; ac	Rheoleiddio Llythyr rheoli archwilwyr allanol Hunan asesiad

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
		o gynnydd yn erbyn argymhellion yr arolygwyr a'r cynllun gweithredu cysylltiedig y cytunwyd arno? A yw'r gymdeithas yn ystyried ac yn asesu'r risg sy'n gysylltiedig ag unrhyw newidiadau arfaethedig sylweddol neu ychwanegiadau at y gweithgareddau presennol? A yw cynlluniau cyfalaf yn destun arfarniadau ariannol a dadansoddiad o sensitifrwydd priodol? A oes gan y gymdeithas strategaeth i reoli'r trysorlys sy'n cynnwys benthyca a buddsoddi sy'n lleihau'r perygl o risg? A oes gan y gymdeithas yswiriant digonol ar gyfer risgiau a rhwymedigaethau y gellir eu hyswrio? A oes gan y gymdeithas fecanweithiau priodol i adennill costau yn achos trychineb?	
2.4.3	Mae'n rhaid i gymdeithasau ddiogelu buddsoddiadau cyhoeddus a gwarchod eu hasedau.	A yw'r gymdeithas yn defnyddio ei hasedau tai cymdeithasol sy'n cael eu hariannu gan arian cyhoeddus i ddibenion sy'n gysylltiedig â thai cymdeithasol yn unig? A yw'r gymdeithas yn sicrhau nad yw ei hasedau tai cymdeithasol mewn perygl o ganlyniad i weithgareddau sydd heb gysylltiad â thai cymdeithasol?	Rheoleiddio: - Adolygiad blynyddol o'r Datganiadau Ariannol archwiledig, llythyr y rheolwyr ac ymateb y gymdeithas - Dadansoddiad strategol blynyddol o'r cynllun busnes pum mlynedd

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
			Hunan asesiad
2.4.4	Dylai cymdeithasau feddu ar reolaeth ariannol effeithiol ac effeithlon.	A yw'r gymdeithas yn cynhyrchu datganiadau ariannol blynyddol sy'n dangos y gallu i dalu ac sy'n cydymffurfio â gofynion statudol ac â'r Penderfyniad Cyfrifo a gyhoeddwyd gan y Cynulliad? A oes gan y gymdeithas yn penodi archwilyr allanol yn unol â'i gyfansoddiad? A yw'r gymdeithas yn gweithredu polisiau a gweithdrefnau ariannol a gymeradwywyd gan ei Bwrdd? A yw'r gymdeithas yn darparu gwybodaeth ariannol briodol ac amserol i'r Bwrdd i lywio ei brosesau o wneud penderfyniadau? A oes rheolaeth fewnol effeithiol dros reoli cyllidebau? A yw'r trefniadau ar gyfer archwiliad mewnol yn ystyried canllawiau y Cynulliad? A oes gan y gymdeithas berson cymwysedig a phrofiadol gyda chyfrifoldeb uniongyrchol dros faterion ariannol sydd: • â hawl i gysylltu â'r Bwrdd; ac • sy'n adrodd i'r Bwrdd yn brydlon ar faterion ariannol o bwys? A yw'r gymdeithas yn hysbysu'r Cynulliad ar unwaith: • am unrhyw achosion o dwyllo gwirioneddol a pherthnasol,	Rheoleiddio: • Adolygiad o gyfrifon rheoli • Adolygiad blynyddol o Ddatganiadau Ariannol archwiledig, llythyr y rheolwyr ac ymateb y gymdeithas • Dilysu, pan fod angen, swydd ddisgrifiadau, cymwysterau a phrofiad pobl â chyfrifoldeb uniongyrchol dros faterion ariannol • Archwilio, pan fod angen, amserlenni awdurdodau dirprwyedig Hunan asesu

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
		amheuaeth o dwyll neu ymgais i dwyllo; • unrhyw broblemau difrifol posibl, boed yn ariannol, yn gorfforaethol, ym maes rheoli, neu o ran adnoddau; ac • unrhyw newidiadau i'r staff personél uwch? A yw'r gymdeithas yn darparu ffurflenni statudol a chyfnodol o fewn yr amserlenni a nodir? A yw'r gymdeithas yn cydweithredu'n brydlon, ac yn y fformat y cytunwyd arno, o ran ceisiadau am unrhyw wybodaeth arall?	
2.4.5	Dylai cymdeithasau ddangos lefelau uchel o uniondeb yn eu holl weithgareddau.	A yw'r gymdeithas yn cydymffurfio ag Atodlen 1 Deddf Tai 1996 o safbwynt talu budd? A yw'r gymdeithas, trwy ei chod ymddygiad, yn sicrhau bod aelodau'r Bwrdd a staff yn ddeall eu cyfrifoldebau parthed uniondeb a gwrthdaro buddiannau? A yw datganiadau buddiant gan aelodau'r Bwrdd a'r staff yn cael eu gwneud yn llawn mewn cofrestr briodol a'u datgelu i'r Cynulliad yn ôl y gofyn? A yw'r gymdeithas yn sicrhau nad yw staff yn aelodau gyda chyfranddaliadau? A oes gan y gymdeithas bolisi o ran derbyn rhoddion a lletygarwch, ac a oes cofrestr briodol yn cael ei chadw?	Rheoleiddio • Gwybodaeth am ardystiadau datblygu • Ffurflenni LCC 1/2/3/4 • Llythyr rheoli archwiliwr allanol • Archwilio, pan fydd angen, bolisiau aelodaeth y Bwrdd • Cwynion i'r Cynulliad/Ombwdsmon Hunan asesiad

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
		A yw'r gymdeithas yn sicrhau nad yw aelodau'r Bwrdd a staff yn derbyn budd personol oddi wrth gyflenwyr nwyddau a gwasanaethau i'r gymdeithas? A oes gan y gymdeithas bolisi caffael effeithiol? A oes gan y gymdeithas bolisi chwythu'r chwiban sy'n cynnwys mynd at y Cynulliad fel y cam olaf?	
2.4.6	Dylai cymdeithasau roi gwerth am arian yn eu holl weithgareddau a gwasanaethau.	A yw costau gwasanaethau cymdeithasau yn cymharu'n ffafriol â landlordiaid cymdeithasol eraill? A yw'r gymdeithas yn darparu gwasanaethau cost-effeithiol ac effeithlon?	Rheoleiddio Dangosyddion perfformiad Hunan asesiad
2.5	Cyfrifoldebau'r Bwrdd		Er na fydd y materion hyn yn cael eu harolygu'n uniongyrchol, gall adroddiadau arolygu gynnwys tystiolaeth berthnasol
2.5.1	Dylai cymdeithasau gael Byrddau sydd â'r gallu i lywodraethu ar lefel briodol.	A yw'r gymdeithas yn sicrhau bod aelodau'r Bwrdd yn llwyr ymwybodol o'u cyfrifoldebau cyfreithiol? A yw'r canlynol yn eglur: - cylch gorchwyl, rolau a phŵer y Bwrdd; - rôl, a phwerau y Cadeirydd; a'r - nifer fwyaf o dymhorau a ganiateir yn olynol fel Cadeirydd?	Rheoleiddio: - Ffurflenni LCC 1/2/3/4 - Os bydd angen, archwilio'r: - polisiau aelodaeth y Bwrdd - amserlen

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
		A yw'r Bwrdd yn sicrhau bod y gymdeithas yn gweithredu yn unol â'i chyfansoddiad, ac â'r gyfraith? A yw Bwrdd y gymdeithas yn derbyn cyfrifoldeb am yr holl rwymedigaethau sylfaenol sydd yn y Cod Rheoliadol hwn? A yw aelodau Bwrdd y gymdeithas: • yn bobl sydd ag amrywiaeth o sgiliau perthnasol; • o gefndiroedd gwahanol, gan adlewyrchu'r cymunedau a wasanaethir gan y gymdeithas; • yn rhydd rhag dylanwad gormodol unrhyw gorff arall; • wedi derbyn hyfforddiant ddigonol; ac • yn wybodus am y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu ac wedi ymrwymo iddynt? A yw cyfansoddiad y Bwrdd yn cael ei adolygu'n rheolaidd i sicrhau bod hyn yn parhau'n wir? A yw'r Bwrdd yn: • gweithredu fel grŵp ac yn derbyn cyfrifoldeb ar y cyd; • galluogi ei holl aelodau i gyfrannu at y broses benderfynu; • yn monitro a rheoli gweithgareddau'r gymdeithas; ac • yn sicrhau bod penderfyniadau o ddydd i ddydd yn cael eu dirprwyo i staff priodol? A yw'r Bwrdd yn gwneud penderfyniadau: • ar sail cyngor priodol; • yn unol â deddfwriaeth berthnasol; ac	awdurdodau dirprwyedig • rheolau sefydlog Hunan asesiad

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
		yn unol â chyfansoddiad, rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol y gymdeithas? A yw holl benderfyniadau'r Bwrdd yn cael eu cofnodi'n gywir?	
2.6	Staffio		Er na fydd y materion hyn yn cael eu harolygu'n uniongyrchol, gall adroddiadau arolygu gynnwys tystiolaeth berthnasol
2.6.1	Dylai cymdeithasau feddu ar strwythurau cyfundrefnol effeithlon ac effeithiol ac arferion cyflogi a staffio priodol.	A oes gan y staff y sgiliau a'r cymwyseddau angenrheidiol i wneud gwaith y gymdeithas? A yw gofynion staffio a strwythurau cyfundrefnol y gymdeithas yn cael eu hadolygu o bryd i'w gilydd ac a oes ganddi: - bolisi recriwtio effeithiol, ynghyd â - gweithdrefnau hyfforddi a datblygu cynhwysfawr, er mwyn cyflawni amcanion gweithredol y gymdeithas. A yw staff yn ymwybodol o'u rolau a'u cyfrifoldebau a sut y mae'r rhain yn cyfrannu at amcanion y gymdeithas?	Rheoleiddio Arolygu: Adroddiad archwilio mewnol Hunan asesiad
2.7	Gweithio gydag eraill		
2.7.1	Dylai cymdeithasau gadw eu hannibyniaeth gyfundrefnol a sicrhau bod ganddynt drefniadau gwaith priodol gyda sefydliadau eraill.	A yw'r gymdeithas yn cydymffurfio â chanllawiau'r Cynulliad ar strwythurau grwpiau, yn benodol: - pob aelod yn gweithio tuag at amcanion strategol y grŵp; - a oes gan y gymdeithas drefniadau ffurfiol o ran trefnu	Adroddiadau arolygu Hunan asesiad Mae cofrestru a newidiadau i

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
		contractau neu lunio partneriaethau gydag asiantaethau, partneriaid, neu sefydliadau eraill? Pan fydd gwasanaethau neu swyddogaethau'n cael eu dirprwyo i sefydliadau eraill, a oes gan y gymdeithas drefniadau i sicrhau eu bod yn dilyn disgwyliadau perthnasol allweddol y Cod Rheoliadol hwn? A yw'r gymdeithas yn gofyn am farn rhanddeiliaid priodol cyn gwneud penderfyniadau allweddol ynghylch strategaeth a pholisïau?	reolau cymdeithasau'n amodol ar gydsyniad ffurfiol y Cynulliad.
2.8	Cyfeiriad strategol		
2.8.1	Dylai fod gan gymdeithasau gyfeiriad strategol, eglur.	A oes gan y gymdeithas gyfeiriad strategol eglur, ac a yw wedi'i fynegi'n eglur (er enghraifft mewn datganiad o fwriad)? A yw cyfeiriad strategol y gymdeithas wedi'i adlewyrchu yng nghynllun busnes y gymdeithas? A oes gan y gymdeithas amcanion a thargedau CAMPUS? A yw perfformiad yn erbyn amcanion a thargedau yn cael eu monitro'n rheolaidd gan y Bwrdd? A oes camau cywiro yn cael eu cymryd os oes angen? Yn achos cymdeithasau sy'n trosglwyddo stoc, a yw'r ymrwymadau a wnaed yn y ddogfen gynnig a'r cytundeb trosglwyddo yn cael eu hadlewyrchu yn amcanion a thargedau eu cynllun busnes?	Adroddiadau arolygu Rheoleiddio: • Dadansoddiad strategol blynyddol o'r cynllun busnes pum mlynedd • Yn achos cymdeithasau trosglwyddo stoc, adolygiad blynyddol o gydymffurfiaid â dogfennau cynnig a chytundebau trosglwyddo Hunan asesiad

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
2.9	Rheoli perfformiad		
2.9.1	Dylai cymdeithasau sicrhau eu bod yn darparu gwasanaethau o ansawdd da.	A yw'r gwasanaethau a ddarperir gan y gymdeithas yn adlewyrchu arferion gorau? A yw'r gwaith monitro a gwerthuso'r gwasanaethau a ddarperir yn seiliedig ar ddangosyddion perfformiad a data cywir a chyfoes?	Adroddiadau arolygu Hunan asesiad
2.10	Gwelliant parhaus		
2.10.1	Dylai cymdeithasau ymdrechu i wella eu gweithgareddau a'u gwasanaethau'n barhaus.	A yw'r gymdeithas yn cynllunio ar gyfer gwelliant parhaus? A yw'r gymdeithas yn dilyn canllawiau'r Cynulliad ar Werth Gorau trwy: herio'r hyn y mae'r sefydliad yn ei wneud a sut mae'n ei	Adroddiadau arolygu Rheoleiddio Dadansoddiad strategol blynyddol o'r cynllun

	Y Disgwyliadau Allweddol	Yr hyn y byddwn yn chwilio amdano	Sut y byddwn yn asesu a yw cymdeithasau yn bodloni'r disgwyliadau allweddol
		wneud; - cymharu ag eraill; - ymgynggori â phobl y mae'r gwasanaethau'n effeithio arnynt; a - sicrhau bod gwasanaethau sy'n cael eu darparu'n uniongyrchol neu trwy drydydd parti yn gystadleuol o safbwynt safonau a phrisiau. A oes tystiolaeth bendant bod perfformiad y gymdeithas yn gwella o flwyddyn i flwyddyn? A yw'r gymdeithas yn sicrhau bod gwasanaethau'n parhau i fod yn berthnasol i anghenion cwsmeriaid a'r gymuned a bod safonau'r gwasanaeth yn gwella'n barhaus, trwy gyfrwng rhaglen dreigl 5 mlynedd gynhwysfawr o adolygiadau gwasanaeth? A yw'r gymdeithas yn darparu gwybodaeth eglur i breswylwyr, staff a rhanddeiliaid eraill ar: - y rhaglen adolygu gwasanaeth; - canlyniadau'r adolygiadau gwasanaeth; a'r targedau busnes y mae'r sefydliad yn ceisio eu cyrraedd yn y dyfodol? A oes darpariaeth ariannol briodol ar gyfer gwelliannau arfaethedig o ganlyniad i adolygiadau gwasanaeth?	busnes pum mlynedd Hunan asesiad